# Y CYNGOR, 22/05/08

**Yn bresennol**: Y Cynghorydd Evie Morgan Jones (Cadeirydd)
Y Cynghorydd Anne Lloyd Jones (Is-gadeirydd)

**Y Cynghorwyr:** R Anderson, S W Churchman, Anwen Davies, E T Dogan, Dyfed Edwards, Dylan Edwards, Elwyn Edwards, Huw Edwards, Trevor Edwards, T G Ellis, Alun Wyn Evans, Jean Forsyth, Simon Glyn, K Greenly-Jones, Gwen Griffith, Margaret Griffith, Selwyn Griffiths, Alwyn Gruffydd, Siân Gwenllian, Christopher Hughes, Huw Price Hughes, Louise Hughes, Sylvia Humphreys, O P Huws, Aeron M Jones, Anne Lloyd Jones, Brian Jones, Charles Jones, Dai Rees Jones, Dyfrig Wynn Jones, Eric Merfyn Jones, John Gwilym Jones, J R Jones, John Wynn Jones, Linda Wyn Jones, R L Jones, Eryl Jones-Williams, P.G.Larsen, Dewi Lewis, Dewi Llewelyn, Dilwyn Lloyd, June Marshall, Keith Marshall, J W Meredith, Llinos Merks, Linda Morgan, Dewi Owen, W.Roy Owen, W Tudor Owen, Arwel Pierce, Peter Read, Dafydd W Roberts, Caerwyn Roberts, Glyn Roberts, Gwilym Euros Roberts, Ieuan Roberts, John Pughe Roberts, Liz Saville Roberts, Siôn Selwyn Roberts, Trevor Roberts, W Gareth Roberts, Dyfrig Siencyn, Ioan Thomas, Guto Rhys Tomos, Ann Williams, Gethin Glyn Williams, Gwilym Williams, J.W.Williams Owain Williams, R H Wyn Williams a Robert J Wright.

**Hefyd yn bresennol:** Harry Thomas (Prif Weithredwr), D P Lewis (Cyfarwyddwr Strategol - Gofal), Dewi V Rowlands (Cyfarwyddwr Strategol - Amgylchedd), Dafydd Edwards (Pennaeth Cyllid), Dilys Phillips (Swyddog Monitro/Pennaeth Gweinyddol a Gwarchod y Cyhoedd), Geraint George (Pennaeth Polisi a Pherfformiad), Gareth Wyn Jones (Uwch Reolwr Gweinyddol a Chyfreithiol), Arwel Ellis Jones (Uwch Reolwr Polisi a Gweithredu), Aled Davies (Pennaeth Cynllunio a Thrafnidiaeth), Huw Williams (Pennaeth Ymgynghoriaeth Gwynedd) ac Eleri Parry (Uwch Swyddog Pwyllgor)

**Ymddiheuriadau**: Y Cynghorwyr Alan Jones Evans a W Penri Jones

## 1 GWEDDI

Agorwyd y cyfarfod gyda gweddi gan y Cynghorydd Huw Edwards

Dilynwyd y weddi gydag anerchiad gan Gadeirydd 2007/08.

## 2 CADEIRYDD

Etholwyd y Cynghorydd Evie Morgan Jones yn gadeirydd am 2008/2009.

Llofnododd y Cynghorydd Evie Morgan Jones ddatganiad yn derbyn y swydd o Gadeirydd Cyngor Gwynedd am 2008/2009.

## 3 IS-GADEIRYDD

Etholwyd y Cynghorydd Anne Lloyd Jones yn is-gadeirydd am 2008/2009

Llofnododd y Cynghorydd Anne Lloyd Jones ddatganiad yn derbyn y swydd o Is-gadeirydd Cyngor Gwynedd am 2008/2009

## 4 COFNODION

Llofnododd y Cadeirydd gofnodion y cyfarfod diwethaf o'r Cyngor a gynhaliwyd ar 28 Chwefror 2008 fel rhai cywir.

## 5 DATGAN BUDDIANT PERSONOL

Datganodd y canlynol fuddiant personol yn yr eitemau canlynol oherwydd y rhesymau a nodir a gadawsant y siambr yn ystod y drafodaeth ar yr eitemau hynny:-

(i) Y Cynghorydd Brian Jones yn yr eitem Penodi Aelodau i'r Pwyllgor Safonau oherwydd ei fod yn gweithio'n agos â'r ddau aelod sydd wedi eu henwi i'w ail-ethol fel aelodau annibynnol ar y Pwyllgor Safonau.

(ii) Y Cynghorydd Len Jones yn yr eitem Penodi Aelodau i'r Pwyllgor Safonau oherwydd ei fod yn adnabod un o'r aelodau sydd wedi ei enw i'w ail-ethol fel aelod annibynnol ar y Pwyllgor Safonau.

## 6 CYHOEDDIADAU'R CADEIRYDD

(i) Cydymdeimlwyd â'r canlynol yn eu profedigaeth:-

- Teulu'r Cynghorydd Ernest Williams. Ymunodd y Cynghorydd Ernest Williams â'r hen Gyngor Dinesig Ffestiniog pan oedd ond un ar hugain oed a bu'n aelod ac yn Gadeirydd Cyngor Tref Ffestiniog mewn cyfnod diweddarach. Yn ystod y blynyddoedd bu'n aelod o Gyngor Dosbarth Meirionnydd ac yn Gadeirydd y Cyngor hwnnw yn 1993/94. Ef oedd Cadeirydd presennol y Grŵp Llafur ar Gyngor Gwynedd. Ni chafodd drafferth cydweithio hefo aelodau o grwpiau eraill ar y Cyngor ac 'roedd yna barch cyffredinol i'w allu, ei ymroddiad a'i hynawsedd.

- Teulu'r cyn- gynghorydd R O Lewis, Tywyn. Dilynodd y cyn Cynghorydd Richard Owen Lewis yrfa hir fel aelod o gyn Cyngor Dosbarth Meirionnydd a'r Cyngor hwn - bu'n Gadeirydd Cyngor Meirionnydd yn 1976/77 - adlewyrchiad o'i lwyddiant fel gwleidydd yw iddo gyrraedd y Gadair ond ychydig flynyddoedd ar ôl sefydlu'r Cyngor yn 1974.

  Mae ei ferch Anne Lloyd-Jones, bellach yn Is-gadeirydd y Cyngor, ac estynnwyd cydymdeimlad â hi a'r teulu yn eu colled.

- Teulu Iona Banks - un o gymeriadau Pobl y Cwm, aelod o Theatr Cymru ac actores boblogaidd iawn.

Hefyd mynegwyd cydymdeimlad â phawb arall oedd wedi colli anwyliaid yn ddiweddar, a safodd y Cyngor mewn distawrwydd fel arwydd o barch a chydymdeimlad.

## 7 CYFLWYNIAD AWDURDOD TAN AC ACHUB GOGLEDD CYMRU

Croesawyd i'r Cyngor, Colin Hanks, Dirprwy Brif Swyddog Tân Gogledd Cymru, Richard Fairhead, Uwch Reolwr Diogelwch Tân, Terry Williams a Gareth Pritchard o Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru.

Cafwyd cyflwyniad gan Richard Farihead ar farwolaethau oherwydd tanau damweiniol yn y cartref yng Ngogledd Cymru.

Adroddodd y swyddog bod cyfartaledd marwolaethau oherwydd tanau damweiniol yn uchel yng Ngogledd Cymru, o gymharu â gweddill Cymru a Lloegr, ac ymhelaethodd ar waith ymchwil yr Awdurdod i geisio gwell dealltwriaeth o'r sefyllfa, a lleihau nifer y marwolaethau.

Eglurodd bod nifer o ffactorau cyfrannol yn gyffredin i'r rhan fwyaf o'r marwolaethau, bod y rhan fwyaf o'r unigolion yn wybyddus i asiantaethau eraill, a phwysleisiodd bod angen hyrwyddo cydweithio rhwng asiantaethau er mwyn adnabod a helpu unigolion oedd fwyaf agored i niwed.

Ymhelaethodd ar amrywiol weithgaredd i adnabod a helpu unigolion oedd fwyaf agored i newid.

Rhoddwyd cyfle i aelodau ofyn cwestiynau a diolchwyd iddynt gan Gadeirydd y Cyngor.

## 8 ARWEINYDD Y CYNGOR

Penodwyd y Cynghorydd Dyfed Edwards yn Arweinydd y Cyngor.

Cafwyd anerchiad byr gan yr Arweinydd newydd.

## 9 CYDBWYSEDD GWLEIDYDDOL

Cyflwynwyd adroddiad y Pennaeth Gweinyddol a Gwarchod y Cyhoedd ar gydbwysedd gwleidyddol y Cyngor a materion perthynol.

Adroddwyd

(i) ei bod yn ofynnol i'r Cyngor sicrhau bod ei amrywiol drefniadau'n adlewyrchu cryfderau'r gwahanol grwpiau gwleidyddol ar y Cyngor, sef cyfansoddiad ei bwyllgorau, ei gynrychiolaeth ar Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri ac Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru, dyraniad cadeiryddiaethau ac is-gadeiryddiaethau ei bwyllgorau yn ogystal â'r cymorth gwleidyddol a rhaniad oriau'r cymorthyddion

(ii) bod angen ymdrin yn unigol â'r materion hyn.

### (A) Dyraniad seddau ar bwyllgorau'r Cyngor a chynrychiolaeth Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri ac Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru

Roedd cytundeb y Grŵp Busnes i'r dyraniad seddau ar bwyllgorau'r Cyngor a chynrychiolaeth ar y cyrff allanol penodol.

Fodd bynnag, er bod y dyraniad yn unol ag ysbryd y ddeddfwriaeth, oherwydd nad oedd y trefniadau'n adlewyrchu'n fathemategol gydbwysedd gwleidyddol y Cyngor. Eglurodd

y Swyddog Monitro, os oedd y Cyngor am dderbyn y dyraniad bod rhaid cael penderfyniad o blaid y trefniadau heb neb yn pleidleisio yn erbyn - er mwyn osgoi unrhyw her o'r tu allan. Pe byddai aelod yn pleidleisio yn erbyn, eglurodd y byddai rhaid chwalu cytundebau'r arweinyddion, a dyrannu'r seddau o'r newydd yn fathemategol.

**PENDERFYNWYD yn unfrydol i:-**

**(i) ddyrannu seddau ar bwyllgorau'r Cyngor yn unol ag adroddiad y Pennaeth. (fel a nodir yn y tabl yng nghymal (ii) o'r penderfyniad)**

**(ii) ddyrannu cynrychiolaeth Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri ac Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru yn unol ag adroddiad y Pennaeth. (fel y nodir yn y tabl yng nghymal (vi) o'r penderfyniad)**

**(B) Cymorth gwleidyddol a rhaniad oriau'r cymorthyddion**

Nodwyd bod cytundeb y Grŵp Busnes i'r trefniadau arfaethedig.

**(C) Cadeiryddiaethau ac is-gadeiryddiaethau pwyllgorau**

Roedd cytundeb y Grŵp Busnes i ddyrnaid y rhan fwyaf o'r cadeiryddiaethau ac is-gdeiryddiaethau. Fodd bynnag, nid oedd cytundeb ynglŷn â chadeiryddiaeth Pwyllgor Craffu Plant a Phobl Ifanc, Pwyllgor Cynllunio Canolog a Phwyllgor Ardal Dwyfor. Fel canlyniad, nid oedd yn bosibl dyrannu cadeiryddiaethau Pwyllgorau Craffu Adnoddau a Chorfforaethol, Apelau Cyflogaeth nag Ardal Meirionnydd ychwaith ac eglurwyd bod angen i'r Cyngor benderfynu ar y dyraniadau.

**Cadeiryddiaeth Plant a Phobl Ifanc**

Cynigiwyd ac eiliwyd i ddyrannu cadeiryddiaeth Pwyllgor Craffu Plant a Phobl Ifanc i Grŵp Plaid Cymru.

Cynigiwyd ac eiliwyd gwelliant i ddyrannu'r gadeiryddiaeth i Grŵp Llais Gwynedd.

Syrthiodd y gwelliant.

Pleidleisiwyd, a llwyddodd y cynnig gwreiddiol i ddyrannu cadeiryddiaeth Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc i Grŵp Plaid Cymru

**Cadeiryddiaeth Pwyllgor Cynllunio Canolog**

Cynigiwyd ac eiliwyd i ddyrannu cadeiryddiaeth Pwyllgor Cynllunio Canolog i Grŵp Plaid Cymru.

Cynigiwyd ac eiliwyd gwelliant i ddyrannu'r gadeiryddiaeth i Grŵp Llais Gwynedd.

Syrthiodd y gwelliant.

Pleidleisiwyd, a llwyddodd y cynnig gwreiddiol i ddyrannu cadeiryddiaeth Pwyllgor Cynllunio Canolog i Grŵp Plaid Cymru

**Pwyllgor Ardal Dwyfor**

Cynigiwyd ac eiliwyd i ddyrannu cadeiryddiaeth Pwyllgor Ardal Dwyfor i Grŵp Plaid Cymru.

Cynigiwyd ac eiliwyd gwelliant i ddyrannu'r gadeiryddiaeth i Grŵp Llais Gwynedd.

Syrthiodd y gwelliant.

Pleidleisiwyd, a llwyddodd y cynnig gwreiddiol i ddyrannu cadeiryddiaeth Pwyllgor Ardal Dwyfor i Grŵp Plaid Cymru

**Pwyllgor Craffu Adnoddau a Chorfforaethol, Pwyllgor Apelau Cyflogaeth a Phwyllgor Ardal Meirionnydd**

Cynigiwyd, eiliwyd a phasiwyd i ddyrannu cadeiryddiaethau Pwyllgor Craffu Adnoddau a Chorfforaethol, Pwyllgor Apelau Cyflogaeth a Phwyllgor Ardal Meirionnydd i Grŵp Llais Gwynedd.

Roedd y cadeiryddiaethau nad oedd cytundeb blaenorol ynghyn â hwy i'w dyrannu i'r grwpiau fel a ganlyn:-

| **Pwyllgor** | **Cadeiryddiaeth** |
|---|---|
| Plant a Phobl Ifanc | Plaid Cymru |
| Cynllunio Canolog | Plaid Cymru |
| Ardal Dwyfor | Plaid Cymru |
| Adnoddau a Chorfforaethol | Llais Gwynedd |
| Apelau Cyflogaeth | Llais Gwynedd |
| Ardal Meirionnydd | Llais Gwynedd |

**PENDERFYNWYD yn unfrydol i ddyrannu rhestr cadeiryddiaethau ac is-gadeiryddiaethau'r prif bwyllgorau yn unol â'r tabl ym mhenderfyniad (iii) isod.**

Adroddwyd ymhellach

(i) na chynhaliwyd etholiad yn Ward Bowydd a Rhiw ar 1 Mai 2008 oherwydd marwolaeth sydyn y cyn cynghorydd Ernest Williams. Cynhelir Isetholiad yn y ward ar 5 Mehefin, 2008, ac adolygir cydbwysedd gwleidyddol y Cyngor yn dilyn derbyn canlyniad yr isetholiad

(ii) mai'r Cyngor ei hun sy'n penodi i Fwrdd y Cyngor, ond gan na fu amser i'r grwpiau gyflwyno eu henwebiadau ceisiwyd hawl i'r Swyddog Monitro wneud y penodiadau ar sail cydbwysedd gwleidyddol y Cyngor

**PENDERFYNWYD**

**(i) Nodi a derbyn cydbwysedd gwleidyddol diwygiedig canlynol y Cyngor :-**

| | |
|---|---|
| **Plaid Cymru** | **35** |
| **Annibynnol** | **18** |
| **Llais Gwynedd** | **12** |
| **Democratiaid Rhyddfrydol** | **5** |
| **Llafur** | **4** |

**(ii) Mabwysiadu'n unfrydol dyraniad seddau ar bwyllgorau'r Cyngor yn unol â'r tablau isod:-**

**BWRDD Y CYNGOR A'R PRIF BWYLLGOR CRAFFU**

| | Plaid Cymru | Annibynnol | Llais Gwynedd | Democratiaid Rhyddfrydol | Llafur |
|---|---|---|---|---|---|
| Bwrdd y Cyngor | 7 | 4 | 2 | 1 | 1 |
| Datblygu (Prif Bwyllgor Craffu) | 7 | 3 | 3 | 1 | 1 |

**PWYLLGORAU CRAFFU ERAILL**

| | Plaid Cymru | Annibynnol | Llais Gwynedd | Democratiaid Rhyddfrydol | Llafur |
|---|---|---|---|---|---|
| Adnoddau a Chorfforaethol | 7 | 4 | 3 | 1 | |
| Amgylchedd | 7 | 4 | 2 | 1 | 1 |
| Plant a Phobl Ifanc | 7 | 3 | 3 | 1 | 1 |
| Gofal | 7 | 4 | 2 | 1 | 1 |

**PWYLLGORAU ERAILL**

| | Plaid Cymru | Annibynnol | Llais Gwynedd | Democratiaid Rhyddfrydol | Llafur |
|---|---|---|---|---|---|
| Archwilio | 7 | 4 | 3 | | 1 |
| Cwynion | 4 | 2 | 1 | | |
| Pensiynau | 2 | 2 | 1 | 1 | 1 |
| Cynllunio Canolog | 5 | 3 | 1 | 1 | 1 |
| Trwyddedu Canolog | 5 | 3 | 2 | 1 | |
| Cydbwyllgor Lleol | 5 | 2 | 2 | 1 | 1 |
| Cydbwyllgor AAA | 3 | 1 | 1 | 1 | 1 |
| CYSAG | 3 | 2 | 1 | 1 | |
| Adnoddau Dynol | 6 | 2 | 2 | 1 | |
| Apelau Cyflogaeth | 4 | 1 | 1 | | 1 |
| Elusennau | 4 | 2 | 2 | 1 | |
| Iaith | 3 | 2 | 2 | | |
| Trethi Annomestig | 3 | 1 | 1 | | |
| Tenantiaeth Gyflwyniadol | 2 | 1 | | | |

**(iii) mabwysiadu'n unfrydol dyraniad cadeiryddiaethau ac is-gadeiryddiaethau y prif bwyllgorau ar sail cydbwysedd gwleidyddol yn unol â'r tabl isod:-**

| | Pwyllgorau | Cadeirydd | Is-gadeirydd |
|---|---|---|---|
| 1 | Bwrdd y Cyngor | Plaid Cymru | Plaid Cymru |
| 2 | Datblygu (Prif Bwyllgor Craffu) | Annibynnol | Democratiaid Rhyddfrydol |
| 3 | Adnoddau a Chorfforaethol | Llais Gwynedd | Plaid Cymru |
| 4 | Amgylchedd | Plaid Cymru | Democratiaid Rhyddfrydol |
| 5 | Plant a Phobl Ifanc | Plaid Cymru | Annibynnol |
| 6 | Gofal | Plaid Cymru | Llais Gwynedd |
| 7 | Archwilio | Annibynnol | Plaid Cymru |
| 8 | Cwynion | Annibynnol | Plaid Cymru |
| 9 | Cynllunio Canolog | Plaid Cymru | Annibynnol |
| 10 | Trwyddedu Canolog | Plaid Cymru | Annibynnol |
| 11 | Pensiynau | Annibynnol | Llafur |
| 12 | Adnoddau Dynol | Plaid Cymru | Annibynnol |
| 13 | Apelau Cyflogaeth | Llais Gwynedd | Plaid Cymru |
| 14 | Ardal Arfon | Llafur | Plaid Cymru |
| 15 | Ardal Dwyfor | Plaid Cymru | Llais Gwynedd |
| 16 | Ardal Meirionnydd | Llais Gwynedd | Plaid Cymru |

**(iv) mabwysiadu'n unfrydol dyraniad swyddi cynorthwywyr gwleidyddol yn unol â chydbwysedd gwleidyddol y Cyngor**

**(v) cadarnhau oriau'r cynorthwywyr gwleidyddol fel a ganlyn:-**

**Plaid Cymru 30 o oriau**
**Annibynnol 15 o oriau**
**Llais Gwynedd 10 o oriau**

**(vi) cadarnhau'n unfrydol cydbwysedd gwleidyddol ar gyfer y cyrff allanol fel a ganlyn:-**

| | Plaid Cymru | Annibynnol | Llais Gwynedd | Democratiaid Rhyddfrydol | Llafur |
|---|---|---|---|---|---|
| Parc Cenedlaethol Eryri | 4 | 2 | 2 | 1 | |
| Awdurdod Tân | 3 | 1 | | | 1 |

**9 COD YMDDYGIAD I AELODAU**

Cyflwynwyd adroddiad y Swyddog Monitro ar Cod Ymddygiad Newydd ar gyfer Aelodau Cyngor Gwynedd.

Adroddwyd bod Gorchymyn Awdurdodau Lleol (Cod Ymddygiad Enghreifftiol)(Cymru) 2008 yn dynodi cod ymddygiad enghreifftiol newydd ar gyfer aelodau. Roedd yn ofynnol cynnwys popeth oedd yn y cod enghreifftiol, ond roedd yn bosibl ychwanegu darpariaethau eraill cyn belled â'u bod yn gyson â'r cod enghreifftiol.

Rhoddwyd ystyriaeth i'r cod newydd gan Bwyllgor Safonau'r Cyngor, a phenderfynodd argymell i'r Cyngor fabwysiadu'r Cod Enghreifftiol, ynghyd â darpariaethau eraill yn ymwneud â chofrestru rhoddion a lletygarwch.

Mewn ymateb i gryn bryder gan aelod, y gall rhai agweddau o'r "buddiannau sy'n rhagfarnu" lesteirio gwaith cynghorydd (e.e. pan nad yn cynrychioli'r Cyngor fel llywodraethwr ysgol), eglurodd yr Uwch Reolwr Gweinyddol a Chyfreithiol bod "buddiannau sy'n rhagfarnu" yn rhan o'r Cod Enghreifftiol, a bod rhaid i'r Cyngor eu derbyn. Fodd bynnag, atgoffwyd yr aelodau o'u hawl i wneud cais i'r Pwyllgor Safonau am ollyngiad er mwyn siarad a phleidleisio ar fater penodol.

**PENDERFYNWYD mabwysiadu'r Cod Ymddygiad enghreifftiol, yn cynnwys yr ychwanegiadau a argymhellwyd gan y Pwyllgor Safonau, fel Cod Ymddygiad Cyngor Gwynedd i aelodau.**

## 10 PENODI AELODAU I'R PWYLLGOR SAFONAU

Cyflwynwyd adroddiad y Swyddog Monitro ar drefniadau penodi i Bwyllgor Safonau Cyngor Gwynedd.

Adroddwyd bod cyfanswm o wyth aelod ar y pwyllgor sef 3 aelod etholedig Cyngor Gwynedd, 1 aelod cymunedol a 4 aelod annibynnol.

Daeth tymor aelodaeth yr aelodau etholedig i ben gyda'r etholiadau llywodraeth leol ddiweddar ac nid oeddynt mwyach yn aelodau o'r Cyngor. Hefyd daeth tymor yr aelod cymunedol i ben, ac nid oedd y rheoliadau'n canatau ei benodi am dymor pellach. Manylwyd ar drefniadau arfaethedig ar gyfer penodi i'r swyddi hyn.

Eglurwyd y daeth tymor 2 o'r aelodau annibynnol i ben hefyd, ond bod modd eu hail ethol am gyfnod pellach o bedair blynedd.

**PENDERFYNWYD**

**(i) Cymeradwyo'r trefniadau a ddisgrifir yn adroddiad y Swyddog Monitro ar gyfer penodi aelodau etholedig ac aelod pwyllgor cymunedol i'r Pwyllgor Safonau.**
**(ii) Ail benodi Mr John Pollard a Mr Malcolm Jones fel aelodau o'r Pwyllgor Safonau I wasanaethau am gyfnod o bedair blynedd.**

## 11 DIWYGIADAU I'R CYFANSODDIAD – HAWLIAU DIRPRWYEDIG

Cyflwynwyd adroddiad y Pennaeth Gweinyddol a Gwarchod y Cyhoedd ar ddiwygio Cyfansoddiad y Cyngor.

Adroddodd y Swyddog Monitro bod angen ychwanegu Trafnidiaeth Canolbarth Cymru (TraCC) at restr o gydbwyllgorau'r Cyngor a dirprwyo hawl gweithredu iddo mewn perthynas â chynlluniau cludiant rhanbarthol, ynghyd â rhoddi hawl i swyddogion

weithredu hawliau gorfodaeth mewn perthynas â throseddau amgylchedd a hawliau mewn perthynas ag ymddygiad gwrthgymdeithasol.

**PENDERFYNWYD**

**(i) Diwygio'r Cynllun Hawliau Dirprwyedig i Bwyllgorau drwy ychwanegu Cydbwyllgor TraCC at y rhestr pwyllgorau a dirprwyo iddo'r hawliau a nodir yn Atodiad 'A' o adroddiad y Pennaeth Gweinyddol a Gwarchod y Cyhoedd.**

**(ii) Diwygio'r Cynllun Hawliau Dirprwyedig i Swyddogion drwy ychwanegu at Hawliau Dirprwyedig y Pennaeth Priffyrdd a Bwrdeistrefol, y pwerau a'r dyletswyddau a nodir yn Atodiad 'B' i adroddiad y Pennaeth Gweinyddol a Gwarchod y Cyhoedd.**

**(iii) Diwygio'r Cynllun Hawliau Dirprwyedig i Swyddogion drwy ychwanegu at hawliau dirprwyedig y Cyfarwyddwr Strategol Gofal yr hawl i roi caniatâd dan Adran 30 Deddf Ymddygiad Gwrthgymdeithasol 2003.**

**12 RHYBUDDION O GYNNIG**

(i) Cyflwynwyd - y rhybudd o gynnig canlynol a dderbyniwyd gan y Cynghorydd Owain Williams o dan Reol Gweithdrefn rhif 13 ynghyd â rhybudd trefniadaethol o dan Reol Gweithdrefn 13(12) yn gofyn am drafod y cynnig yn y Cyngor heb ei gyfeirio i bwyllgor yn gyntaf:-

**PENDERFYNWYD trafod y cynnig yn y cyfarfod hwn.**

Cynigiwyd ac eiliwyd y cynnig canlynol:-

**"Oherwydd y galw cryf gan y gymuned leol yn ogystal â'r busnesau yn y pentref, gofynnwn i'r Cyngor hwn gefnogi'r alwad i ymgorffori adeiladu cylchfan gerllaw'r ffordd osgoi i bentref Clynnog Fawr. Gelwir am hyn oherwydd dwy ffactor :-**

**(a) Bydd yr allanfa o'r pentre' i gyfeiriad Caernarfon fel ac y buasai ar hyn o bryd yn y cynllun arfaethedig, yn hynod beryglus.**

**(b) Bydd y ford osgoi yn ynysu y pentref gan y bydd y drafnidiaeth yn gwibio heibio ar 60 m.y.a., a mwy. Canlyniad hyn fydd cwtogi'r nifer o deithwyr/modurwyr fydd yn galw yn y garej/siop. Fe all hyn arwain at gau y busnes i lawr gan golli 15 o swyddi, colli gwasanaeth sy'n angenrheidiol i gylch eang. Buasai hefyd yn ergyd enfawr i'r 2 westy ac yn effeithio'n sylweddol ar nifer ymwelwyr i'r Ganolfan Hanes a'r Eglwys hynafol.**

**Buasai gwrthod yr alwad hon yn tanseilio yr holl ymdrechion a fu i adfywio'r economi ac i wella safon byw a gobeithion y trigolion."**

(ii) Dosbarthwyd llythyrau oedd i law oddi wrth fusnesau lleol yn pwyso ar y Cyngor i fabwysiadu'r rhybudd o gynnig.

(iii) Cyflwynwyd ymateb ysgrifenedig y Cyfarwyddwr Strategol Amgylchedd i'r rhybudd o gynnig.

Eglurwyd y bwriedir adeiladu ffordd osgoi i'r gogledd orllewin o Glynnog, gyda dau fynediad oddi ar y ffordd osgoi yn cysylltu'r pentref. Bydd cerbydlon ychwanegol ar y briffordd ar y gyffordd de gorllewinol (ochr Pwllheli) i alluogi cerbydau sy'n dymuno troi i mewn i'r pentref wrth deithio i gyfeiriad Caernarfon dynnu i'r ochr a thrwy hynny osgoi

rhwystro traffic trwodd. Ariennir y gwaith, sydd eisoes ar droed, ac i'w gwblhau ym Mehefin 2009, gan Lywodraeth y Cynulliad trwy Grant Trafnidiaeth ar gost o £20.5 miliwn.

Crynhowyd trafodaethau blaenorol ynglŷn â'r gylchfan yng nghyfarfodydd y Bwrdd a'r Cyngor. Cyfeiriwyd at y broses statudol hir a chymhleth oedd ynghlwm â'r cynllun, a manylwyd ar oblygiadau newid y cynllun.

(iv) Mynegwyd gryn gefnogaeth i ymgorffori cylchfan gerllaw'r ffordd osgoi i bentref Clynnog. Roedd amryw'n ategu pryder ynglŷn â diogelwch y cynllun presennol, ac yn nodi bod lefel uchel o ddamweiniau'n digwydd o dan amgylchiadau o'r fath - pan fo ceir yn troi i'r dde. Roeddynt hefyd o'r farn y byddai cylchfan yn fodd i reoli ac arafu'r traffig yn gyffredinol.

Yn ogystal, roedd cefnogaeth i'r cynnig oherwydd ffactorau economaidd a chymunedol. Nodwyd bod pentrefwyr wedi buddsoddi yn y busnesau ac ofnir y byddai'r busnesau'n crebachu a swyddi'n diflannu.

(v) Eglurodd y Cyfarwyddwr ymhellach ei fod yn ddeall pryderon y gymuned a'r busnesau ynglŷn ag elfennau diogelwch ac effaith ar fusnesau. Rhoddwyd sylw manwl a gofalus i'r pryderon hynny. Fodd bynnag, nid oedd cyfiawnhad dros newid y cynllun.

Manylodd ar y rhesymau dros wrthod y cynnig.

Adroddodd bod y ffordd osgoi wedi ei dylunio i'r safonau cenedlaethol uchaf posibl - yn unol â'r canllawiau a methodoleg gydnabyddedig ar gyfer cynllun o'r fath. Nid oedd tystiolaeth i gyfiawnhau newid y cynllun. Yr amser i ddylanwadu ac ymyrryd oedd yn ystod y broses statudol, ac nid yn ystod y cyfnod adeiladu.

Hefyd, nid oedd sicrwydd o wireddu'r cynllun, oherwydd bod posibilrwydd y byddai angen tir ychwanegol a hawl cynllunio, ac nid oedd sicrwydd y byddant ar gael. Cyfeiriwyd hefyd at oedi posibl wrth ddilyn y broses statudol a'r posibilrwydd o orfod gosod cytundeb o'r newydd.

Pwysleisiodd y bydd cynllun arwyddo effeithiol ar y ffodd newydd er mwyn sicrhau bod cyfle i deithwyr fanteisio ar gyfleusterau, gwasanaethau ac atyniadau'r pentref.

Ymhellach, eglurodd na fyddai'r Cynulliad yn ysgwyddo'r gost o adeiladu cylchfan, a byddai rhaid ei ariannu o gyllideb y Cyngor. Pwysleisiodd nad oedd cylchfan yn haeddu blaenoriaeth dros gynlluniau eraill yr awdurdod oedd eisoes yn y rhaglen waith.

(vi) Eglurodd y Pennaeth Cyllid bod y cynlluniau oedd eisoes yn y rhaglen waith wedi bod yn llwyddiannus yn y broses bidio am arian cyfalaf, a byddai adeiladu cylchfan ar draul y cynlluniau hynny. Pwysleisiodd bod arian yn brin a bod angen disgyblaeth wrth wario arian cyhoeddus.

(vii) Roedd y Prif Weithredwr yn annog yr aelodau i roddi sylw teilwng i farn swyddogion proffesiynol y Cyngor, a phwysleisiwyd bod angen blaenoriaethu adnoddau mewn modd strategol, gan ystyried unrhyw gais unigol yng nghyd-destun ehangach yr holl alwadau sydd ar y Cyngor.

(viii) Wrth gloi'r drafodaeth, pwysodd y Cynghorydd Owain Williams am gefnogaeth i'w gynnig. Pwysleisiodd bryderon dwys ynglŷn â diogelwch y cynllun presennol. Hefyd nododd bod pentref Clynnog wedi profi ffyniant economaidd mewn blynyddoedd

diweddar, ac roedd pryder mawr yn lleol y byddai'r busnesau'n cau gyda swyddi a gwasanaethau'n diflannu oni bai bod cylchfan yn cael ei adeiladu ar y ffordd osgoi.

Yn unol â Rheol Gweithdrefn 19 (6) cofnodwyd y bleidlais ganlynol:-

**O blaid (28)**

Y Cynghorwyr R Anderson, S W Churchman, Anwen Davies, Trevor Edwards, T G Ellis, Jean Forsyth, Simon Glyn, Alwyn Gruffydd, Christopher Hughes, Louise Hughes, Sylvia Humphreys, Aeron M Jones, Eric Merfyn Jones, John Gwilym Jones, J R Jones, Dilwyn Lloyd, Keith Marshall, Llinos Merks, Dewi Owen, Peter Read, Dafydd W Roberts, Gwilym Euros Roberts, Siôn Selwyn Roberts, Guto Rhys Tomos, Gethin Glyn Williams, Gwilym Williams, Owain Williams a Robert J Wright.

**Yn erbyn (39)**

Y Cynghorwyr E T Dogan, Dyfed Edwards, Dylan Edwards, Elwyn Edwards, Huw Edwards, Alun Wyn Evans, Gwen Griffith, Margaret Griffith, Selwyn Griffiths, Siân Gwenllian, Huw Price Hughes, O P Huws, Anne Lloyd Jones, Brian Jones, Charles Jones, Dai Rees Jones, Dyfrig Wynn Jones, Evie Morgan Jones, John Wynn Jones, Linda Wyn Jones, R L Jones, P.G.Larsen, Dewi Lewis, Dewi Llewelyn, Linda Morgan, W Tudor Owen, Arwel Pierce, Caerwyn Roberts, Glyn Roberts, Ieuan Roberts, John Pughe Roberts, Liz Saville Roberts, Trevor Roberts, W Gareth Roberts, Dyfrig Siencyn, Ioan Thomas, Ann Williams, J. W. Williams a R H Wyn Williams

**Atal (3)**

Y Cynghorwyr Eryl Jones-Williams, June Marshall a W Roy Owen

Adroddodd y Cadeirydd bod y cynnig wedi colli

**PENDERFYNWYD peidio a mabwysiadu'r cynnig**.

**(ii)** Cyflwynwyd - rhybudd o gynnig a dderbyniwyd o dan Reol Gweithdrefn 13, oddi wrth 15 aelod, o dan Reol Gweithdrefn 18(2), ynghyd â rhybudd trefniadaethol o dan Reol Gweithdrefn 13(12) yn gofyn am drafod y cynnig yn y Cyngor heb ei gyfeirio i bwyllgor yn gyntaf:-

**PENDERFYNWYD trafod y cynnig yn y cyfarfod hwn.**

Cynigiwyd ac eiliwyd y cynnig canlynol:-

**"Ein bod yn galw ar Gyngor Gwynedd i ailystyried penderfyniad Bwrdd y Cyngor ar 11 Mawrth, 2008, yn eitem rhif 11, <u>Cynllun Datblygu Unedol Gwynedd- Ymateb i Adroddiad yr Arolygwr.</u>**

**Yn benodol, rydym yn galw ar i'r Cyngor ddiwygio penderfyniad y Bwrdd i gadarnhau'r diwygiadau i Bolisi B10 Cynllun Datblygu Unedol. Effaith penderfyniad y Bwrdd yw na fydd y rhan helaethaf o ochr Gwynedd o ardal Afon Menai ddim mwyach yn Ardal Gwarchod y Tirlun. Awgryma tystiolaeth newydd fod gwerth y tirlun yn yr ardal hon yn uwch na'r hyn**

**a dybiwyd yn flaenorol. Felly, rydym yn cynnig bod y Cyngor yn mabwysiadu'r "egwyddor ragofalus", fyddai'n cadw dynodiad yr AGT hyd nes y cwblheir asesiad gwyddonol trylwyr o werth y tirlun."**

Cyflwynwyd ymateb ysgrifenedig y Pennaeth Cynllunio a Thrafnidiaeth i'r rhybudd o gynnig.

Eglurodd y Pennaeth nad oedd tystiolaeth wyddonol wedi ei ganfod i gyfiawnhau gweithredu'n wahanol i'r penderfyniad gwreiddiol a bod yr Arolygydd annibynnol yn cadarnhau'r safbwynt yma.

Pwysleisiodd y gall mabwysiadu'r cynnig gynyddu risgiau i'r Cyngor o ran cael cyd-destun polisi yn ei le a llesteirio cyflawni ei amcanion strategol oherwydd hynny. Yn hytrach awgrymwyd y dylid ail-edrych ar asesiad tirlun yn fuan yn y broses o baratoi Cynllun Datblygu Lleol.

Yn dilyn ymateb y swyddog, nododd y Cynghorydd June Marshall nad oedd yn dymuno llesteirio hynt y Cynllun Datblygu Unedol, a'i bod yn fodlon ystyried dulliau eraill i leddfu'r pryderon, a gwarchod yr ardal rhag unrhyw ddatblygiad annerbyniol trwy'r broses Cynllun Datblygu Lleol.

Gyda chytundeb y Cyngor tynnodd ei chynnig yn ôl.

Cynigiwyd ac eiliwyd y cynnig newydd canlynol:-

**Bod y Cyngor yn cymryd sylw o bryderon a theimladau cryf preswylwyr Gwynedd i'r cynnig bod ochr Gwynedd i'r Afon Fenai yn colli ei ddynodiad fel Ardal Cadwraeth y Tirlun. Er mwyn ymateb i'r pryderon hyn, bydd y Cyngor yn gweithredu i sicrhau gwarchodaeth rhag unrhyw ddatblygiad annerbyniol yn yr ardal trwy'r broses Cynllun Datblygu Lleol gan:**

- **wneud yr ardal yma'n flaenoriaeth wrth baratoi'r Cynllun Datblygu Lleol;**
- **sicrhau bod cyllid digonol ar gael i gario allan asesiad llawn o werth tirlun yr ardal a thrwy ddefnyddio methodoleg gadarn a chydnabyddedig**
- **gadarnhau y bydd ymgynghoriad llawn o farn y cyhoedd drwy gydol y broses"**

**PENDERFYNWYD mabwysiadu'r cynnig ac awdurdodi'r Cyfarwyddwr Strategol Amgylchedd i weithredu ar y cynnig.**

Dechreuodd y cyfarfod am 2:00 p.m. a daeth i ben am 5:00p.m.